

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2-3pm
Telegynhadledd



<p><u>Yn Bresennol</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Fiona Kinghorn Abigail Harris Paul Orders Sarah McGill Michael Evans</p> <p>Keith Meredith Sheila Hendrickson-Brown Alun Michael Mark Brace Tim Morgan Hannah Williams</p> <p>Jo Salway</p> <p>Ymddiheuriadau: Len Richards Wendy Gunney Huw Jakeway Gareth O'Shea Gareth Newell</p> <p>Hefyd yn bresennol: Gavin Macho Abigail Taylor Siân Sanders Anne Wei Anna Schwappach Nathan Swain Clive Bailey</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd, CC</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP CaF)</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Gweithrediadau Canol De Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Prif Swyddog Gweithredol, C3SC Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddau Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru</p> <p>Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Weithredwr, Gweithrediadau De Cymru, CNC Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC</p> <p>Swyddog Rheoli Brys Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol Rheolwr Diogelwch Cymunedol, Cydlynad ac Ymgysylltu, CC Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP CaF Cofrestrydd Arbenigol Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC</p>
--	--

Rhif	Eitem Agenda	
1/2	<p>Croeso a Chyflwyniadau Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 22 Hydref 2020 a rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn camau gweithredu.</p>	
3.	<p>Diweddariad COVID-19</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn drosolwg o'r ffigyrau Covid-19 diweddaraf yng Nghaerdydd, gan nodi bod Caerdydd yn gweld cynnydd graddol mewn achosion COVID-19. Mae nifer fach o achosion yn cael eu gweld yn y gymuned ddigartref a allai fod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r carchar.</p> <p>Rhagwelir y bydd symudiad myfyrwyr a phobl ifanc yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn gweld cynnydd yn nifer yr achosion yn y grŵp poblogaeth hwn.</p> <p>Nodwyd, er nad yw'r ffigurau'n rhoi cysylltiad uniongyrchol â'r diwydiant lletygarwch, gweithredoedd sy'n ymwneud â'r math hwn o gymysgu cymdeithasol sy'n peri risg uchel.</p> <p>Trafododd y Bwrdd gyhoeddi ffigurau i ddangos mai ymddygiad gwael a pheidio â chydymffurfio â mesurau ataliol yw'r rheswm pam mae angen penderfyniadau anodd ynghylch lletygarwch a chyfarfodydd teuluol.</p> <p>Mae cynrychiolwyr y trydydd sector wedi dweud bod ymdeimlad o wybodaeth annigonol yn y gymuned, a bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu mewn ffyrdd nad ydynt yn briodol i bob cynulleidfa.</p> <p>Cam Gweithredu: Cytunodd Sheila Hendrickson Brown a Fiona Kinghorn i gysylltu i drafod cyfathrebu a negeseuon iechyd cyhoeddus.</p> <p>Rhoddwyd cyfle i bob sefydliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eu camau ailgychwyn ac adfer priodol.</p> <p>Mae'r materion allweddol a amlygwyd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae prinder gwelyau ysbyty. Nid yw cleifion nad ydynt yn gleifion COVID wedi gollwng yn yr un ffordd ag y gwnaethon nhw yn ystod y cyfnod clo cyntaf. • Mae prosesau brechu torfol wedi'u sefydlu yng Nghaerdydd a byddant yn mynd yn fyw yn fuan, gan ddechrau gyda staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol. • Mae ysgolion dan straen cyson o ganlyniad i gau a gofynion hunan ynysu. • Mae Heddlu De Cymru wedi stopio nifer sylweddol o gerbydau sy'n teithio o Loegr ac mae hysbysiadau cosb wedi eu rhoi. 	F Kinghorn / S Hendrickson Brown

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> Mae gofynion Profi, Orlhain, Diogelu yn golygu bod yn ofynnol i flocciau staff y Gwasanaeth Tân ynysu ar yr un pryd ac mae cynllunio staff ychwanegol wedi'i gyflwyno. 	
4.	<p>Brexit a Pharodrwydd am y Gaeaf</p> <p>Rhoddodd Gavin Macho gyflwyniad ar baratodau'r Cyngor ac ystyriaethau ar gyfer Brexit a chynllunio ar gyfer materion y gaeaf.</p> <p>Cam Gweithredu: Cytundeb i gynnal cyfarfodydd BGC Brexit ar fyr rybudd ym mis Rhagfyr / Ionawr os bydd eu hangen</p> <p>Cytunodd y BGC y byddai angen gweithredu lleol drwy'r BGC ochr yn ochr â thrafodaethau drwy'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth.</p> <p>Amlygodd BIPCaF fod ysbytai'n rhagweld llai o ryddhau cleifion cyn y Nadolig, a allai greu pwysau yn yr wythnos ar ôl y Nadolig (sydd fel arfer yn gweld galw mwy na'r arfer am wasanaethau).</p>	Ysgrifenyddiaeth
5.	<p>Cynllun Diogelu'r Gaeaf Bwrdd Partneriaid Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2021/21</p> <p>Dosbarthwyd Cynllun Diogelu Gaeaf BPRh CaF 2020/2021 drwy e-bost y tu allan i'r cyfarfod.</p>	
6.	<p>Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol</p> <p><i>Asesiad anghenion iechyd pigiadau cyhoeddus</i></p> <p>Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth wedi rhoi cefnogaeth gref i'r argymhellion sy'n deillio o asesiad anghenion iechyd Cyhoeddus o'r rhai sy'n chwistrellu sylweddau yn gyhoeddus. Bydd yr argymhellion yn llywio comisiynu gwasanaethau.</p> <p>Cam Gweithredu: Argymhellion asesu anghenion iechyd pigiadau cyhoeddus a'r camau nesaf i'w trafod mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol.</p> <p><i>Proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl</i></p> <p>Er mwyn helpu i dreialu Proses Adolygiad Diogelu Unedig Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth yn argymhell y dylid defnyddio'r dynladdiad domestig diweddar ddechrau mis Hydref fel achos peilot.</p> <p>Cytunwyd: Cytunodd y BGC gydag argymhelliad y Bwrdd Arweinyddiaeth.</p>	Ysgrifenyddiaeth

